# Rhaglen Gyflawn

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**9.00 y.b., DYDD GWENER, 20FED MEDI, 2019**

Lleoliad

**Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Ffordd Bangor, Conwy. LL32 8DU**


Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**



(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 13 Medi 2019)

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Dyfrig L. Siencyn | Cyngor Gwynedd |
| Sam Rowlands | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| David Jones | Coleg Cambria |
| Ashley Rogers | Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Iwan Davies | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Colin Everett | Cyngor Sir y Fflint |
| Judith Greenhalgh | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dilwyn Williams | Cyngor Gwynedd |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151 |
| Iwan Trefor Jones | Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26.7.19 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

## 6. PENODI CYFARWYDDWR RHAGLEN

Penodi Cyfarwyddwr Rhaglen (ceisiadau a dogfennau ategol i'w cylchredeg ar wahân ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn unig).

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 26.7.19

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig L Siencyn (Cyngor Gwynedd).

Ymgynghorwyr – Claire Taylor (Prifysgol Glyndŵr), Yr Athro Graham Upton (Prifysgol Bangor), Sue Price (Coleg Cambria), Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes)

Prif Swyddogion – Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Gary Williams (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Bancroft (Cyngor Wrecsam) a Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol - Dafydd L. Edwards (Swyddog Adran 151), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd), Iwan Evans (Swyddog Monitro), a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

David Jones (Coleg Cambria), Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Judith Greenhalgh (Cyngor Dinbych) a Sasha Davies (Bwrdd Cyflawni Busnes)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd 21 Mehefin 2019 a 28 Mehefin 2019 fel rhai cywir.

**4. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH A CHOFRESTR RISG Y BWRDD UCHELGAIS**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol.

**PENDERFYNWYD**

- **Adolygu, a chymeradwyo statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith yn ddarostyngedig ar ddiweddaru'r gweithredoedd hynny sydd yn llithro mewn coch**
- **Adolygu cynnwys y Gofrestr Risg a chymeradwyo'r meini prawf asesu ar gyfer pob tasg.**
- **Cytuno y dylid ychwanegu 'Swyddfa Rhaglen' i'r gofrestr.**

**RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD**

Diweddaru cynnydd y tasgau ar y Rhaglen Waith ynghyd a chyflwyno fersiwn diweddaraf y Gofrestr Risg

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan dynnu sylw at y materion hynny oedd wedi eu cwblhau yn y rhaglen waith ynghyd a'r nifer hynny sydd angen sylw yn y misoedd nesaf. Amlygwyd bod tasgau ac amserlen wedi ei ddynodi ar gyfer swyddogion penodol ynghyd a statws RAG. Cyfeiriwyd at y gofrestr risg oedd wedi ei hatodi gyda'r adroddiad ac atgoffwyd yr aelodau bod y ddogfen yn cael ei hadolygu yn fisol gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol.

Bwrdd Cyflawni Busnes
Rhoddwyd diweddariad gan Askar Sheibani (Is-gadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes) ar ei weledigaeth i'r Bwrdd gryfhau eu perthynas gyda'r Bwrdd Uchelgais fel bod modd iddo fanteisio ar wybodaeth ac arbenigedd y Sector Breifat i ddenu cyfoeth, targedu mwy o gyfraniadau a chynhyrchu busnes i Ogledd Cymru. Ategodd yr angen i gydweithio gan geisio'r cynllun gorau.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:
- Bod y sector breifat yn rhan sylfaenol o'r cynllun
- Y dylai cofnodion y Bwrdd fod yn eitem safonol ar raglen y Bwrdd Uchelgais
- Y byddai gwaith y Bwrdd Uchelgais yn cael ei graffu gyda negeseuon clir ac argymhellion uniongyrchol
- Gwahodd Aelodau o'r Bwrdd i fynychu / annerch mewn cyfarfodydd
- Cynnal cyfarfodydd ar y cyd er mwyn adeiladu'r ymdeimlad o dîm
- Ymgynghori gyda'r Bwrdd cyn hysbysu am Reolwyr Prosiect
- Bod angen i ddiwylliant y sector breifat a'r sector gyhoeddus gyfuno
- Bod angen cynnal deialog agored, cyfathrebu'n glir a rhannu gwybodaeth yn effeithiol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag addasu cylch gorchwyl y Bwrdd Cyflawni Busnes i adlewyrchu'r sylwadau uchod, awgrymodd y Swyddog Monitro y gellid adolygu'r cylch gorchwyl fel bod modd sefydlu trefn fyddai yn gweithio i bawb.

Penodi Cadeirydd Bwrdd Cyflawni Busnes
Adroddwyd bod proses apwyntio mewn lle ynghyd a swydd ddisgrifiad (drafft) ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes. Amlygwyd yr angen i ymgynghori gyda'r ddwy lywodraeth ynglŷn â'r penodiad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth
- Mai rôl annibynnol fydd gan y Cadeirydd
- Bod angen i'r person fod ag angerdd am yr ardal, yn adnabyddus, yn arweinydd a chyda chysylltiadau da

Mewn ymateb i sylw y byddai'r penodiad yn 'benodiad cyhoeddus' awgrymwyd yr angen i sicrhau dealltwriaeth o'r cyfyngiadau ariannol yn y trafodaethau a bod trefn arfarnu apwyntiadau llywodraeth leol wedi ei dilyn.

Swyddfa Rhaglen
Amlygodd Dilwyn Williams y byddai hysbysiadau ar gyfer rhai swyddi yn y swyddfa rhaglen yn cael eu hysbysebu yn ystod yr Haf. Adroddwyd y byddai swydd Cyfarwyddwr Rhaglen yn cael ei hail hysbysebu ar y 29ain o Orffennaf gyda'r dyddiad cau ar y 23ain o Awst. Ategwyd y byddai angen trefnu cyfarfod arbennig ar gyfer tynnu rhestr fer ar y 6ed o Fedi a chynnal cyfweliadau ar gyfer yr 20fed o Fedi. Ategodd y byddai'r Partneriaid i gyd yn cael copi o'r hysbyseb. Cadarnhawyd hefyd y byddai'r swydd Rheolwr Rhaglen Ddigidol yn cael ei ail hysbysebu yn dilyn derbyn Penawdau'r Telerau - nodwyd hefyd y byddai'r swydd yn

cael ei hysbysebu fel swydd barhaol. Gofynnwyd i ystyriaeth gael ei roi i ychwanegiad y farchnad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth
- Y byddai ceisiadau Cyfarwyddwr Rhaglen o'r sector breifat yn cael eu hystyried, ynghyd a secondiadau os yw'r sefyllfa yn briodol
- Ystyried bod unigolion yn 'camu i fyny' o'r Grŵp Cyfarwyddwyr
- Bod angen ystyried trefniadau ar gyfer cyfnod interim - angen sicrhau rheolaeth swyddfa yn ystod cyfnod allweddol. Penderfynwyd y byddai CE, IE a DOW yn ystyried cynllun interim ac adrodd i'r cyfarfod nesaf ym mis Medi
- Bod lefelau cyflog yn rhan o drafodaeth a threfniadau rheolaeth swyddfa

Cofrestr Risg
Gwnaed sylw bod angen i faterion sydd yn llithro cael eu hamlygu mewn coch ac y dylai Swyddfa Rhaglen gael ei gynnwys ar y gofrestr

## 5. CYLLIDEB REFENIW 2019/20 – ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF (Mehefin 2019)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Edwards, Swyddog Adran 151

**PENDERFYNWYD**

**Nodi a derbyn yr Adolygiad Chwarter Cyntaf y Cydbwyllgor ar gyfer 2019/20.**

**Derbyn cadarnhad y Cydbwyllgor i ddefnyddio'r Gronfa Wrth Gefn (oedd wedi ei glustnodi ar gyfer y diben hwn) i ariannu unrhyw ddiffyg incwm yn 2019/20**

**RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD**

Bod angen nodi gwariant a ragwelir ar gynllunio prosiectau (a geisir yn allanol a staff) yn 2019/20, tra bod cyfalafu'r costau prosiect hynny ddim yn bosib tan 2020/21, a'r gorwariant a ragwelir ar gostau recriwtio

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn darparu manylion y gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2019/20 ynghyd a rhagamcaniad o alldro blwyddyn lawn yn erbyn y gyllideb flynyddol.

Nododd Swyddog Adran 151 bod y drefn ariannol wedi bod yn un heriol a'r gyllideb ar gyfer eleni wedi ei baratoi gyda'r wybodaeth oedd ar gael ar y pryd. Ategodd bod rhagdybiaethau yn parhau gan nad oedd cadarnhad o'r grant ESF ac felly arian yn cael ei symud rhwng cyllidebau i adlewyrchu penderfyniadau staffio. Er hynny, nid oedd yn rhagweld pryderon amlwg ar y gorwel.

Cyfeiriwyd at adroddiad strwythur y swyddfa rhaglen a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais ym Mehefin 2019 ar y sail bod y strwythur yn fforddiadwy o fewn y cyfraniadau ariannol craidd. Eglurwyd y gellid gweithredu hyn drwy ddefnyddio'r cyfraniadau craidd cytunedig ynghyd a reserfau a gariwyd ymlaen. Ategwyd y byddai fforddiadwyedd ar gyfer 20/21 yn ddibynnol ar gynllun llwyddiannus a bod cyfalafu'r costau staff yn ymwneud a phrosiectau.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chronfa wrth gefn ar gyfer diswyddiadau, amlygwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal ac y byddai'r mater yn cael ei ystyried wrth gynllunio ymlaen a gosod cyllideb tair blynedd

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth
- Angen adeiladu reserfau
- Angen anfonebu Cynghorau am gyfraniadau
- Wrth osod y gyllideb rhaid amlinellu bod y cyfraniadau yn parhau'r un fath
- Diolchwyd am y gwaith

## 6. CAIS ADEILADU CAPASITI SEFYDLIADOL ESF

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol

**PENDERFYNWYD y byddai'r Grŵp Swyddogion Gweithredol yn,**
- **parhau i ddatblygu Cynllun Busnes i WEFO (Welsh European Funding Office) gefnogi eu cais am arian o'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd**
- **sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i arwain ar ddatblygu'r Cynllun Busnes**
- **cyflwyno adroddiadau chwarterol ar y cynnydd i'r Bwrdd Uchelgais**

**RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD**

Byddai cyllid o'r gronfa yn cyfrannu at ariannu swyddi o fewn y Swyddfa Rhaglen hyd at fis Mehefin 2023, yn ôl weithredol i fis Mehefin 2018

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad yn manylu ar waith y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar gais Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd i ddylunio ac adeiladu'r capasiti angenrheidiol ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Economaidd Gogledd Cymru. Y bwriad fydd derbyn £3m fyddai'n caniatáu ariannu swyddi o fewn y Swyddfa Rhaglen hyd at fis Mehefin 2023. Byddai hyn yn golygu swyddfa rhaglen hunangynhaliol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â manylder ariannu swyddi'r swyddfa rhaglen nodwyd mai amcangyfrifon oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac y byddai manylion llawn yn cael eu cynnwys yn y cynllun busnes.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amserlen cyflwyno cais, nodwyd bod bwriad cyflwyno cais erbyn diwedd mis Hydref 2019.

Cadarnhawyd, pe byddai Prydain yn ymadael a'r Under Ewropeiaidd ddiwedd Hydref bydd Llywodraeth Prydain yn cyflenwi'r arian.

## 7. CAU ALLAN Y WASG AR CYHOEDD

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd oherwydd bod yr adroddiad ynglŷn â dogfen Penawdau Telerau Drafft Cynllun Twf Gogledd Cymru sydd wedi ei dynodi yn ddogfen gyfrinachol gan Adran y Llywodraeth ar gyfer darpariaethau Adran 100 (A)(2) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gan hynny mae'n ofynnol eithrio'r adroddiad rhag ei chyhoeddi gan y byddai yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

## 8. PENAWDAU'R TELERAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol

**PENDERFYNWYD**
**Bod Bwrdd Uchelgais Economaidd yn croesawu Drafft y Penawdau Telerau fel arwydd cadarnhaol o ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i Gynllun Twf Gogledd Cymru, gan edrych ymlaen at gau'r Penawdau Telerau cyn 6.9.19**

**RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo penawdau telerau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 2:50yp.